**1 Medi 2021**

**Ymateb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i**

**Adroddiad interim: Archwiliad i ba mor effeithiol mae'r heddlu'n ymgysylltu â menywod a merched**

Mae'r archwiliad hwn yn amserol ac yn cyd-fynd â nifer o ffrydiau gwaith diweddar sy'n canolbwyntio ar wasanaethau dioddefwyr.

Mae prosiect pen i ben Heddlu Dyfed-Powys yn canolbwyntio ar roi dioddefwyr wrth galon popeth drwy ddeall galw, gwella prosesau a dylanwadu ar ddiwylliant i'w galluogi i fod yn effeithiol ac effeithlon.

Mae Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys, a gydlynir gan fy Swyddfa, eisoes wedi cynorthwyo Heddlu Dyfed-Powys i roi llais i ddioddefwyr o ran llunio gwasanaethau dioddefwyr, ac rwy'n llwyr gefnogi parhad y gwaith hwn er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn chwarae rôl ganolog o ran llunio cymorth ar draws y System Cyfiawnder Troseddol. Mae cyfleodd i ddioddefwyr ymuno â'r fforwm yn cael eu hyrwyddo'n aml, gan gynnwys drwy ein gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Mae ymateb Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu i Drais yn erbyn Menywod a Merched a strategaeth genedlaethol y Swyddfa Gartref dal yn destun ymgynghoriad. Yng Nghymru, yr ydym wedi cydnabod pwysigrwydd y maes hwn ar ôl gweithredu'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod a Merched yn 2015, sy'n darparu ar gyfer atal, gwarchod a chefnogi trais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn ddiweddar, cytunodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru i gydweithio â Llywodraeth Cymru ar Lasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer Cymru. Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi datblygu cynllun cyflenwi cychwynnol ar gyfer y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod a Merched, a fydd yn cael ei fireinio unwaith y byddwn wedi derbyn y canllawiau pellach a ddisgwylir gan y Llywodraeth Ganolog a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

Mae fy swyddfa'n cefnogi arloesedd yn y maes hwn ar ôl sicrhau buddsoddiad ychwanegol o dros £600,000 yn ddiweddar gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ardal Dyfed-Powys am y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd hyn yn darparu gallu ychwanegol o fewn gwasanaethau presennol, yn cynyddu nifer y rolau arbenigol trais rhywiol a domestig annibynnol, ac yn caniatáu ar gyfer ymagweddau arloesol tuag at gyflenwi gwasanaethau.

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal Ymgyrch Vigilant am y tro cyntaf yn ystod penwythnos gŵyl y banc mis Awst, a fydd yn gweld swyddogion heddlu hyfforddedig mewn dillad cyffredin yn cael eu lleoli lle y gallai grwpiau o fenywod bregus gael eu harwahanu yn ystod adegau brig o'r economi nos. Os nodir fod unigolion yn arddangos ymddygiad ysglyfaethus, anfonir swyddogion lifrog penodol i aflonyddu ar yr unigolion hynny, eu stopio a'u chwilio. Mae

ymgyrchoedd blaenorol o'r natur hwn wedi tynnu sylw'r adran gudd-wybodaeth at unigolion o ddiddordeb a throseddwyr rhyw cofrestredig sy'n teithio.

Yr ydym hefyd wrthi'n cyflwyno cais i'r Gronfa Diogelwch Menywod Gyda'r Nos er mwyn darparu ymagweddau arloesol tuag at greu mannau diogel ar gyfer menywod yn ein cymunedau, yn arbennig yr economi nos ac adnabod ein myfyrwyr a'n poblogaethau gwyliau amharhaol.

Yr wyf yn dawel fy meddwl bod Heddlu Dyfed-Powys, ynghyd â phartneriaid a gwasanaethau a gomisiynir gan fy swyddfa, wedi ymrwymo i barhau i yrru cydweithio rhwng asiantaethau er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn diogelu menywod a merched gyda'n gilydd, ac yn ymateb i'r bygythiadau maen nhw'n eu hwynebu.